# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
# Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| Adam Marshall | Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion |
| Anne Beegan | Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion (ac eithrio eitemau 5 a 6) |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol (Dydd Iau 17 Mawrth 2022) |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Kevin Thomas | Aelod a benodwyd o blith y cyflogeion a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (CGGC) |
| **Ymddiheuriadau:** | Elinor Gwynn (Dydd Mercher 16 Mawrth 2022) |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (CGCN) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (CGGA) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Catryn Holzinger | Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol (eitem 4) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 10-14) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitem 14) |
| **Sylwedyddion:** | |
| Diane Morgan | Rheolwr y Prosiect Newid (eitemau 5 – 16) |
| Sue Henry | Swyddog Cymorth Busnes |
| Victoria Walters | Partner Dysgu Adnoddau Dynol |
| Joe Hargreaves | Uwch Reolwr, PricewaterhouseCoopers (ar gyfer yr adolygiad archwilio mewnol) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso'r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb |
| 2. | Datganiadau o fuddiant |
| 3. | Strategaeth pum mlynedd / Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| 4. | Datblygu Cynaliadwy: sefydlu'r egwyddor wrth wneud penderfyniadau |
| 5. | Adolygu cofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 07 Ionawr 2022 a 26 a 27 Ionawr 2022 |
| 6. | Adolygu'r offeryn tracio camau gweithredu |
| 7. | Adroddiad y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol |
| 8. | Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Corfforaethol: penodi Ysgrifennydd y Bwrdd a dynodi Swyddog Diogelu Data |
| 9. | Diweddariad y Cadeirydd |
| 10. | Strategaeth pum mlynedd: cymeradwyo'r ffordd ymlaen |
| 11. | Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Chwefror 2022 |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 12. | Cynllun Blynyddol 2022-23 |
| 13. | Adroddiad Cydraddoldeb 2021-22 |
| 14. | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-26 |
| 15. | Adroddiadau ar Berfformiad:<br>(a) adroddiad cyllid<br>(b) diweddariad am berfformiad yn Ch3<br>(c) y gofrestr risgiau strategol |
| 16. | Adolygu'r flaenraglen waith |
| 17. | Adolygu'r cyfarfod |
| 18. | Unrhyw fater arall |
| 19. | Dyddiad y cyfarfod nesaf: Datblygu'r Bwrdd - 16 ac 17 Mai; Busnes y Bwrdd - 09 Mehefin 2022 |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1.** | **Croeso'r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu'r aelodau a'r rhai a oedd hefyd yn bresennol. Nododd absenoldeb oddi wrth Elinor Gwynn ar gyfer dydd Mercher 16 Mawrth 2022. Byddai Kevin Thomas yn bresennol yn y sesiwn honno yn ei gymhwyster fel CGGC i sicrhau bod y cyfarfod yn un â chworwm. | |
| 1.2 | Byddai Ian Rees yn ysgrifennu blog y cyfarfod, gyda mewnbwn gan CGCN a fyddai'n casglu'r pum prif neges o'r cyfarfod. | IR<br>ALC |
| **2.** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 2.1 | Datganodd Katherine Drysdale fuddiant yn eitem 8 (penodi Ysgrifennydd y Bwrdd). Byddai'r Uwch Reolwr Archwilio Mewnol yn gadael y cyfarfod cyn eitem 18 er mwyn i ddiweddariad am y contract Archwilio Mewnol, y gallai fod gan PricewaterhouseCoopers fuddiant ynddo, gael ei ddarparu'n breifat. | |
| **3.** | **Strategaeth pum mlynedd / Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | |
| 3.1 | Cyflwynodd CGCN bapur a oedd yn amlinellu datblygiad y strategaeth pum mlynedd, trywydd a dangosyddion canlyniadau drafft ar gyfer monitro cynnydd. Eglurodd fod y ddogfen strategaeth yn ystyried mewnbwn gan y Bwrdd yn ogystal ag adborth o'r gwaith ymgysylltu mewnol ac allanol, yr oedd aelodau'r Bwrdd wedi bod yn rhan ohono. | |
| 3.2 | Bu'r Bwrdd yn trafod: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • cynnwys a thôn y ddogfen, gan wneud y sylw y byddai'n croesawu geirio amlwg, eglur, hygyrch a gwaith golygu i gael gwared ar jargon, talfyriadau ac ailadrodd;<br>• cynyddu effaith adran 2 o'r strategaeth trwy ailfframio'r teitl i'w fersiwn gynharach sef 'ble'r ydym yn gryf a sut allem fod yn gryfach';<br>• cyd-destun ac amgylchedd y strategaeth, gan nodi y byddai hyn yn cael ei ddiweddaru fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol;<br>• y ffrâm amser ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth a beth yn union oedd gofyn i'r Bwrdd gytuno arno ar y cam hwn, gydag elfennau craidd yn cael eu lansio ym mis Ebrill i ddarparu cyswllt â'r cynllun blynyddol, gydag offeryn rhyngweithiol yn cael ei lansio wedyn ynghyd â pheth gwaith pellach ar fesurau canlyniadau;<br>• sut yr oedd adborth rhanddeiliaid wedi cael ei adlewyrchu yn y strategaeth, gan awgrymu bod y rheolwyr yn ystyried a gafodd hwn ei ymgorffori'n ddigonol; a<br>• sut yr oedd cynllunio busnes yn seiliedig ar gynnwys y strategaeth ddrafft yn helpu i gysylltu meysydd o fewn y busnes i greu diben cyffredin a nodi blaenoriaethau'r rhaglen newid. | |
| 3.3 | Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall a chael sicrwydd bod y canlyniadau yn y strategaeth pum mlynedd yn ddigon:<br>• eang i osgoi bylchau o ran yr hyn sydd wedi'i gynnwys; a<br>• phenodol i'w gwneud yn bosibl mesur cynnydd a chyflawniad yn glir.<br>Eglurodd CGCN fod strategaethau eraill, a'u cynlluniau cyflawni ategol, yn ymgorffori manylion nad oeddent wedi'u cynnwys yn llawn yn y strategaeth pum mlynedd drosfwaol. Fodd bynnag, byddai datblygu trywydd yn galluogi'r UDA i benderfynu pa ganlyniadau fyddai'n aros mewn strategaethau lleol a beth fyddai'n cael ei adlewyrchu yn y strategaeth drosfwaol. | |
| 3.4 | Bu'r Bwrdd yn adolygu'r datganiadau o ganlyniadau ar gyfer pob un o'r conglfeini ac:<br>• fe wnaeth awgrymiadau ar gyfer mireinio, lleihau a chyfuno rhai datganiadau;<br>• rhoddodd ystyriaeth i gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol y cynllun blynyddol i ddarparu sicrwydd ar y cyfan, ond heb dargedau penodol; ac<br>• fe gydnabu fod datganiadau o ganlyniadau ar gyfer y gonglfaen diwylliant a gweithredu'n fwy cymhleth i'w disgrifio, ac anogodd y rheolwyr i ystyried pa un a allai'r datganiadau o ganlyniadau gael eu tynnu o strategaeth y gweithlu neu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | |
| 3.5 | Nododd y Bwrdd y byddai'r trywydd yn cael ei ddatblygu fesul tipyn i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth, ac y byddai CGCN yn croesawu adborth gan aelodau ar hyn. | Pawb |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 3.6 | Eglurodd y Cadeirydd y byddid yn ymdrin â'r argymhellion ar gyfer yr eitem hon yn eitem 10 ar yr agenda ar ddydd Iau 17 Mawrth. | |
| **4.** | **Datblygu Cynaliadwy: sefydlu'r egwyddor wrth wneud penderfyniadau** | |
| 4.1 | Cyflwynodd CGGC bapur a oedd yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd am weithgarwch i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau yn Archwilio Cymru. Eglurodd fel a ganlyn:<br>• yn gyffredin â chyrff eraill, roedd Archwilio Cymru ar adeg gynnar o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond roedd ymarfer mapio lefel-uchel yn dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei hymgorffori mewn prosesau allweddol;<br>• roedd arweiniad wedi cael ei ddatblygu, gan ddefnyddio methodoleg seiliedig-ar-archwilio, i ddarparu ysgogiadau ymarferol i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau; ac<br>• roedd CGCN a Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cydweithio i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y strategaeth pum mlynedd. | |
| 4.2 | Fe wnaeth Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>• atgoffa'r aelodau am yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio;<br>• cyflwyno'r arweiniad ac egluro sut y gallai gael ei ddefnyddio gan aelodau wrth wneud penderfyniadau ac i gael sicrwydd bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei hystyried a'i chymhwyso; ac<br>• amlinellu senario byr i'r Bwrdd ei ystyried, gan ddefnyddio'r ysgogiadau yn yr arweiniad. | |
| 4.3 | Bu'r Aelodau'n cyfranogi mewn grwpiau ymneilltuo i drafod sut i gymhwyso'r arweiniad wrth ystyried adolygiad o bolisi, ac fe wnaethant ddarparu adborth ar gyfer y cyfarfod. | |
| 4.4 | Roedd y Bwrdd yn cytuno bod yr ymarfer wedi ysgogi meddwl a bod yr arweiniad wedi helpu i ddarparu ffocws ar gyfer ei drafodaethau. | |
| 4.5 | Nododd y Bwrdd y byddai'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n berthnasol mewn meysydd allweddol ym mlaenraglenni gwaith y Bwrdd a Phwyllgorau, wrth wneud penderfyniadau ac wrth geisio sicrwydd ynghylch cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan y rheolwyr. Byddai grŵp cynllunio'r Bwrdd yn adolygu'r rhaglenni gwaith gyda Chadeiryddion Pwyllgorau a Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol i adnabod ble y gallai'r arweiniad fod yn fwyaf perthnasol a sut y gellid darparu cyswllt â'r ysgogiadau, e.e. mewn papurau. | Grŵp Cyn-llunio'r Bwrdd<br>AG, IR |
| 4.5 | Fe wnaeth y Bwrdd ddiolch i Reolwr Cenedlaethau'r Dyfodol am sesiwn addysgiadol a defnyddiol a rhoddodd gymeradwyaeth i ddefnyddio'r Arweiniad yn ei brosesau penderfynu yn y dyfodol. | |
| **5.** | **Adolygu cofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 07 Ionawr 2022 a 26 a 27 Ionawr 2022** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 5.1 | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo cofnodion ei gyfarfod ar 07 Ionawr 2022 fel cofnod cywir. | |
| 5.2 | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo cofnodion ei gyfarfod ar 26 a 27 Ionawr 2022 fel cofnod cywir. | |
| 5.3 | Darparodd yr Archwilydd Cyffredinol ddiweddariad am y saib y cyfeiriwyd ato yn eitem 3 yng nghofnodion y cyfarfod ar 26 Ionawr 2022 ac eglurodd fod disgwyliadau ffurfiol ar gyfer cylch arfarnu 2022 wedi cael eu lleihau ond fel arall nad oedd saib gydag unrhyw feysydd gwaith pwysig, tra bo eglurhad o bwysau llwyth gwaith gan Gyfarwyddwyr a Rheolwyr Archwilio yn yr arfaeth. Eglurodd CGGA fod lefelau cofnodi amser y gellir codi amdano'n isel a bod saib wedi bod gyda gwaith na ellir codi amdano yn ystod mis Mawrth. Eglurodd CGCN a CGGA eu bod yn adolygu offer tracio camau gweithredu i adnabod blaenoriaethau allweddol ac y dylai recriwtio i gwblhau'r prosesau ailstrwythuro yn y Gwasanaethau Corfforaethol leddfu pwysau llwyth gwaith a oedd yn dal i fodoli i rai unigolion. | |
| 5.4 | Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pryd fyddai gwybodaeth am y cyflenwad a'r galw ar gyfer darparu adnoddau'n cael ei darparu (cam gweithredu WAOB/21/044) eglurodd CGCN y byddai'r UDA yn adolygu gwybodaeth am ddarparu adnoddau a llwyth gwaith, a gasglwyd o gofnodion amser a chanlyniadau'r arolwg pwls, ac yn ystyried sut i adrodd yn ôl wrth y Bwrdd ar y data ynghylch y cyflenwad a'r galw. | UDA |
| 5.5 | Nododd y Bwrdd fod yr UDA yn ceisio dealltwriaeth fwy trylwyr am bwysau llwyth gwaith ac adnoddau a nes y ceir y darlun llawnach hwnnw, y byddai unrhyw newidiadau'n rhai mewn pwyslais. Felly byddai'r Bwrdd yn cynnal ei raglen waith, gan fod yn ymwybodol o bwysau llwyth gwaith yn gyffredinol, a byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd. | ACC |
| **6.** | **Adolygiad o'r offeryn tracio camau gweithredu** | |
| 6.1 | Bu'r Bwrdd yn trafod y materion a gododd o'i gyfarfodydd blaenorol gan ddefnyddio'r offeryn tracio camau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddiweddaru:<br>• WAOB/21/021 a WAOB/21/036 (cyfathrebu ac ymgysylltu) – cau'r camau gweithredu a bwrw ymlaen â hwy trwy'r camau gweithredu mewn ymateb i'r adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd.<br>• WAOB/21/032 (Adroddiad y SDD) – hysbysodd CGGC fod Cyber Essentials wedi cael ei gwblhau yn ystod mis Mawrth, ac y byddai Cyber Essentials Plus yn cael ei gwblhau ym mis Mai. Eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod ei adroddiad yn darparu diweddariad, ac argymhelliad bod y Bwrdd llawn yn rhan o sesiwn hyfforddi a pharhad busnes ar seiberddiogelwch. Cadarnhaodd y byddai adroddiad llywodraethu gwybodaeth yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor ym mis Mehefin. | BS |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • WAOB/21/042 (adolygiad o deithio a chynhaliaeth) – roedd CGCN yn bwriadu cynnal adolygiad ar ôl y prosiect ym mis Mehefin gyda golwg ar gyflwyno adroddiad ar y gwersi i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.<br>• WAOB/21/044 (arolwg staff) – cynigiodd y Cadeirydd, ac fe gytunodd y Bwrdd, y byddai Adam Marshall yn gweithredu fel cyswllt y Bwrdd ar gyfer yr ymateb i'r arolwg staff.<br>• WAOB/21/048 (adolygiad o fuddion) – eglurodd CGGC fod buddion ariannol wedi cael eu hadolygu gyda Grant Thornton ac y byddai cyfarfod yn cael ei amserlennu gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i drafod y camau nesaf, ac y byddai cylch gorchwyl yr adolygiad yn cael eu paratoi wedyn.<br>• WAOB/21/050 ac WAOB/21/051 (llywodraethu) – byddai Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu'r camau gweithredu hyn ac yn amcanu at eu cau. | |
| **7.** | **Adroddiad y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol** | |
| 7.1 | Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr gyflwyno'i adroddiad ac amlygu'r canlynol:<br><u>Recriwtio hyfforddeion</u> – roedd nifer yr ymgeiswyr wedi bod yn isel a dim ond 6 chynnig oedd wedi cael eu gwneud, a byddai proses bellach yn cael ei rhedeg ymhen ychydig fisoedd. Roedd proses i recriwtio prentisiaid yn yr arfaeth hefyd.<br><u>Gweithleoedd y dyfodol</u> – roedd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes wedi siarad gyda'r asiant ar ran y landlord yn Heol y Gadeirlan nad oedd yn ffafrio estyniad o un flwyddyn ar y brydles ond a fyddai'n newid yn ôl i opsiwn tymor hwy. Roedd opsiynau credadwy eraill a fyddai'n cael eu harchwilio i'r Bwrdd eu hystyried a phenderfynu arnynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><u>Teithio a chynhaliaeth</u> – dim ond un contract oedd heb ei lofnodi eto a hynny oherwydd amgylchiadau personol, ac roedd disgwyl i hyn ddigwydd yn fuan. Diolchodd y Bwrdd i bawb a fu'n rhan o gyflwyno'r cynllun diwygiedig. | |
| 7.2 | Darparodd yr Archwilydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr ddiweddariad byr am y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) ac eglurodd nad oedd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru neilltuo amser deddfwriaethol i'r Bil. Fodd bynnag, gallai'r opsiwn o geisio mwy o hyblygrwydd ariannol trwy lefel uwch o gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru gael ei ystyried ar gyfer Amcangyfrif 2023-24. | |
| 7.3 | Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai fod oedi gyda'r broses o ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru am beth amser a'i fod ef a'i dîm yn cydnabod y sensitifrwydd a oedd yn gysylltiedig â hyn. | |
| 7.4 | Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **8.** | **Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Corfforaethol: penodi Ysgrifennydd y Bwrdd a dynodi Swyddog Diogelu Data** | |
| 8.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur a oedd yn cadarnhau cwblhau'r broses o ailstrwythuro tîm y Gyfraith a Moeseg ac yn argymell bod y Bwrdd:<br>• yn penodi Katherine Drysdale yn Ysgrifennydd y Bwrdd; ac<br>• yn dynodi Yazmin Steelandt-Humphries fel ei Swyddog Diogelu Data. | |
| 8.2 | Yn unol â'i Gynllun Dirprwyo, fe wnaeth y Bwrdd:<br>• benodi Katherine Drysdale yn Ysgrifennydd y Bwrdd; a<br>• dynodi Yazmin Steelandt-Humphries fel ei Swyddog Diogelu Data.<br>Nododd y Bwrdd fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi crybwyll rôl y Swyddog Diogelu Data yn ei e-bost at y staff cyfan a'i fod yn awr yn cadarnhau ei benderfyniad i hun i ddynodi Yazmin Steelandt-Humphries fel Swyddog Diogelu Data Archwilydd Cyffredinol Cymru. | |
| **9.** | **Diweddariad y Cadeirydd** | |
| 9.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd ei diweddariad ysgrifenedig ar gyfer y Bwrdd ac amlygodd y canlynol:<br>• roedd Ysgrifennydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cael eu cyfweld hefyd ar gyfer yr adolygiad archwilio mewnol o lywodraethu; ac<br>• roedd hi wedi cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i drafod y trefniadau ar gyfer y cylch nesaf o ran recriwtio aelodau anweithredol a fyddai'n ofynnol i lenwi swyddi gwag sy'n codi ym mis Mawrth 2023. Roedd y Senedd yn awyddus i ddeall bylchau o ran sgiliau, gwybodaeth ac amrywiaeth ar y Bwrdd, ac i helpu i greu Bwrdd cryf ac amrywiol trwy'r broses benodi. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn cylchredeg matrics priodol i gael ei gwblhau gan aelodau. | BS |
| 9.2 | Fe wnaeth y Bwrdd nodi diweddariad y Cadeirydd. | |
| **10.** | **Strategaeth pum mlynedd: cymeradwyo'r ffordd ymlaen** | |
| 10.1 | Fe grynhodd CGCN ganlyniad trafodaeth strategol y Bwrdd yn eitem 3 ar yr agenda, a gofnodwyd dan eitem 3 uchod. | |
| 10.2 | Noddodd y Bwrdd y byddai CGCN yn:<br>• adolygu a diweddaru'r ddogfen strategaeth i ystyried sylwadau'r Bwrdd;<br>• datblygu'r mesurau canlyniadau; a<br>• datblygu cynlluniau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a llunio adroddiad ar hynny i gael ei ystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. | CGCN |
| 10.3 | A hwythau wedi trafod a darparu adborth ar y Strategaeth Pum Mlynedd, a chyfeiriad ar gyfer y datganiadau o ganlyniadau, roedd y Bwrdd yn fodlon:<br>• cymeradwyo'r cyfeiriad teithio ar gyfer y strategaeth pum mlynedd; ac | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • awdurdodi'r UDA i rannu'r ddogfen strategaeth wedi'i hail-lunio (heblaw am y datganiadau o ganlyniadau) gyda staff a bwrw ymlaen â chynhyrchu'r fersiwn ryngweithiol yn ystod mis Ebrill 2022. | |
| 10.4 | Cofnododd y Bwrdd ei ddiolchiadau i CGCN, yr UDA a'r holl staff a oedd wedi gweithio ar y strategaeth, wedi cyfrannu ati neu wedi rhoi cymorth i'w datblygu. | |
| **11.** | **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Chwefror 2022** | |
| 11.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2022. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y canlynol:<br>• yr adolygiad archwilio mewnol o gaffael a oedd wedi cael ei gategoreiddio fel risg isel;<br>• cynnig y Pwyllgor, yn amodol ar gyngor y Bwrdd, ar gyfer adolygiad sy'n mynd at wraidd y mater o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phwysau llwyth gwaith yn ei gyfarfod nesaf a bod ei hyd a'i led yn cael eu pennu ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol. Awgrymodd fod holl aelodau'r Bwrdd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gyfer yr eitem honno; ac<br>• adolygiad y Pwyllgor o risgiau seiber, yr oedd aelodau wedi paratoi ar ei gyfer trwy edrych ar ganllawiau'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Seiberddiogelwch. Amlygodd y cynnig ar gyfer sesiwn hyfforddi a pharhad busnes ar gyfer y Bwrdd cyfan cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | |
| 11.2 | Hysbysodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y Pwyllgor wedi darparu adborth ar y datganiad drafft am barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer yr UDA ac, yn dilyn adolygiad pellach gan yr UDA, fod y Pwyllgor yn fodlon argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r datganiad. | |
| 11.3 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gytuno i amserlennu hyfforddiant seiber / technoleg gwybodaeth a gweithgarwch cynllunio ar gyfer senarios fel rhan o'i raglen waith;<br>• cymeradwyo'r cynnig ar gyfer adolygiad sy'n mynd at wraidd y mater o'r risg sy'n gysylltiedig â phwysau llwyth gwaith;<br>• cymeradwyo'r datganiad am barodrwydd i dderbyn risg; a<br>• chymeradwyo blaenraglen waith dros dro'r Pwyllgor. | BS |
| 11.4 | Byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu diweddariad am y broses ar gyfer y contract archwilio mewnol yn eitem 18 (Unrhyw Fater Arall). | |
| 11.5 | Fel arall, fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad. | |
| **12.** | **Cynllun Blynyddol 2022-23** | |
| 12.1 | Fe wnaeth y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd gyflwyno papur a oedd yn nodi datblygiad cynllun blynyddol drafft ac: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • egluro yr effeithiwyd ar amseriad proses y cynllun blynyddol gan yr angen i'r cynllun blynyddol adlewyrchu'r strategaeth pum mlynedd, a bod rhaid gosod y cynllun blynyddol gerbron erbyn 31 Mawrth 2022;<br>• amlinellu'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo gan Dîm y Cyfarwyddwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol i gwblhau'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth; a<br>• rhoi diweddariad i'r Bwrdd am ddatblygu targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. | |
| 12.2 | Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r sail resymegol ar gyfer unrhyw newidiadau, gan nodi'r bwriad i symud tuag at ganlyniadau mewn blynyddoedd yn y dyfodol a bod newidiadau'n bennaf yn rhai i adlewyrchu gofynion a diffiniadau allanol;<br>• rhaglen y Gyfnewidfa Arfer Da, gan nodi'r bwriad i gysoni gweithgarwch â'r rhaglen waith fesul tipyn; a hefyd<br>• y meysydd blaenoriaeth, sut i wneud y rhain yn fwy eglur a pha un a ddylid cynnwys cyfeiriad at y strategaeth pum mlynedd a chynllunio llwyth gwaith. | |
| 12.3 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gydnabod y gwaith a oedd wedi cael ei wneud i ddatblygu'r cynllun blynyddol a chydnabod yr effeithiwyd ar ei gynnwys a'r amseriad ar gyfer ei ddatblygu gan heriau'r angen i'w gysoni â'r strategaeth a oedd yn datblygu;<br>• cymeradwyo'r cynllun blynyddol drafft, a fyddai'n cael ei ddatblygu ymhellach i ystyried mewnbwn y Bwrdd; ac<br>• awdurdodi'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo a llofnodi'r fersiwn derfynol ar gyfer ei gosod gerbron. | Cadeirydd, ACC |
| **13.** | **Adroddiad Cydraddoldeb 2021-22** | |
| 13.1 | Fe wnaeth y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd gyflwyno'r Adroddiad Cydraddoldeb drafft ar gyfer 2020-21. Fe amlinellodd y ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb ac ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Hysbysodd fod adroddiad eleni'n hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol ond y byddai'n cael ei gyhoeddi cyn y terfyn amser statudol sef 31 Mawrth. Cadarnhaodd y byddai adroddiad 2021-22 yn newid yn ôl i gael ei gyhoeddi yn yr hydref. | |
| 13.2 | Eglurodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd fod y cynnydd ar y cyfan wedi bod yn effeithiol o ran y camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb a thynnodd sylw'r Bwrdd at yr offeryn data rhyngweithiol a oedd yn dangos y data ar y gweithlu a'r bylchau cyflog. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 13.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod y gweithlu a'r bylchau cyflog, y rhesymau sylfaenol dros y rhain a chyfleoedd i leihau'r bylchau ymhellach. | |
| 13.4 | Fe wnaeth y Bwrdd awdurdodi'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gwblhau'r rhageiriau ar gyfer yr adroddiad ac, yn amodol ar fân newidiadau, fe wnaeth gymeradwyo'r adroddiad cydraddoldeb drafft i gael ei gyhoeddi. | |
| **14.** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-26** | |
| 14.1 | Fe wnaeth y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd amlinellu'r rhwymedigaeth ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i fynd ati ar y cyd i baratoi ac adolygu'r amcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd. Hysbysodd nad oedd terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi, ond cynigiodd y dylid cysoni'r broses â'r strategaeth pum mlynedd gan bod y cynllun yn llifo o'r strategaeth ehangach honno ac yn rhan ohoni. | |
| 14.2 | Eglurodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd fod yr amcanion drafft yn ystyried adborth gan PAWB a'r Bwrdd ac wedi cael eu hystyried gan yr UDA. Eglurodd fod deg ymateb allanol wedi dod i law, amlinellodd y testunau a oedd yn codi ac eglurodd ble ellid mynd i'r afael â'r rhain neu eu hymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | |
| 14.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• sut yr oedd angen i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hadlewyrchu'n glir yn y cynllun gan gynnwys yr amcanion, i ddangos bod Archwilio Cymru wedi ystyried mewnbwn, awgrymiadau a heriau wrth ddatblygu'r cynllun;<br>• yr amcanion drafft a pha un a oedd y rhain yn ddigon uchelgeisiol;<br>• tôn ac iaith yr adroddiad a sut y gellid gwella hyn i adlewyrchu egni'r Bwrdd ar gyfer datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'i gydnabyddiaeth i'r manteision cyfreithiol a moesol;<br>• sut y gallai'r cynllun cydraddoldeb strategol ddangos ei gyd-ddibyniaeth â'r strategaeth pum mlynedd;<br>• datblygu'r cynllun i adlewyrchu ymrwymiad Archwilio Cymru i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;<br>• hyd a lled ymgysylltu allanol a'i ffurf, a sut allai hyn gael ei ddatblygu yn y dyfodol i sicrhau mewnbwn ehangach; a<br>• gwerth posibl meincnodi'r cynllun drafft yn erbyn cynlluniau cydraddoldeb strategol cyrff eraill. | |
| 14.4 | Fe wnaeth y Bwrdd gydnabod y gwaith a oedd wedi cael ei wneud i ddatblygu'r cynllun drafft a gofyn am gylchredeg drafft diwygiedig, gydag amcanion diwygiedig, ar gyfer mewnbwn rhithwir, gyda drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i gael ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. | PCacA<br>Pawb |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **15.** | **Adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys yr adroddiad cyllid, adroddiad ar berfformiad yn chwarter tri a'r gofrestr risgiau strategol** | |
| (a) adroddiad cyllid | | |
| 15.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Ionawr 2022 a darparodd ddiweddariad ar lafar am y sefyllfa ariannol gyfredol. Eglurodd fod disgwyl i incwm a gwariant ill dau fod islaw'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, a bod y rhagolygon diweddaraf yn dynodi bod disgwyl y bydd gwarged bach. | |
| 15.2 | Nododd y Bwrdd fod incwm wedi lleihau oherwydd cyfuniad o lefelau swyddi gwag ymhlith staff a lleihad yn y gallu i godi am amser staff a rhai prosiectau a oedd wedi gorredeg. Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• yr amseriad ar gyfer cwblhau gwaith i gyflawni archwiliadau a chasglu incwm o ffioedd; a hefyd<br>• yr ystod o ffactorau a oedd wedi cyfrannu at leihau'r gallu i godi am amser staff a chynlluniau'r rheolwyr i ddeall yr achosion hynny a mynd i'r afael â hwy. | |
| (b) adroddiad ar berfformiad yn chwarter tri | | |
| 15.3 | Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd ddiweddariad i'r Bwrdd am gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws yn y Cynllun Blynyddol ac eglurodd mai ychydig o newid a fu ers diwedd chwarter 2 a oedd wedi cael sylw yn yr Adroddiad Interim. | |
| (c) y gofrestr risgiau strategol | | |
| 15.4 | Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd ddiweddariad i'r Bwrdd am newidiadau i'r gofrestr risgiau strategol. Eglurodd nad oedd unrhyw risgiau newydd ac y bu lleihad yn y risgiau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad o deithio a chynhaliaeth a datblygu'r strategaeth pum mlynedd. | |
| 15.5 | Roedd y Bwrdd yn croesawu integreiddio'r ffynonellau sicrwydd yn y gofrestr risgiau strategol ac fe gafwyd trafodaeth fer am y canlynol:<br>• y sgoriau risgiau gweddilliol, a pha un a oedd y rhain yn rhoi adlewyrchiad realistig o'r heriau a wynebir gan Archwilio Cymru; a<br>• sut yr oedd y Bwrdd wedi cyffwrdd ar nifer o'r materion a oedd wedi'u cofnodi ar y gofrestr yn ystod y cyfarfod, a oedd yn awgrymu ffocws mwy eglur ar yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad. | |
| 15.6 | Roedd y Bwrdd yn fodlon nodi'r adroddiad ac fe wnaeth y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd wahodd yr holl aelodau i adrodd yn ôl ar eu profiadau o ddefnyddio'r gofrestr ryngweithiol. Gofynnodd y Bwrdd i'r rheolwyr ymgorffori crynodeb o unrhyw gydberthnasau rhwng y gwahanol elfennau o'r adroddiadau mewn adroddiadau ar berfformiad yn y dyfodol. | Pawb<br><br>UDA |
| **16.** | **Adolygu'r flaenraglen waith** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 16.1 | Bu'r Bwrdd yn trafod ei flaenraglen waith ac fe nododd fel a ganlyn:<br>• byddai ystyriaeth i weithleoedd y dyfodol yn cael ei hymgorffori yn y rhaglen waith;<br>• byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei amserlennu ar gyfer sesiwn hyfforddi / senario ar seiberddiogelwch (byddai amser i'r aelodau fod ar gael yn cael ei ryddhau o ganlyniad i ganslo cyfarfod strategol mis Ebrill); a<br>• byddai cyfarfod mis Tachwedd yn cael ei symud o un diwrnod am ei fod yn gwrthdaro â chyfarfod y PCCaGG, y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn bresennol ynddo.<br>Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn diweddaru'r rhaglen waith dros dro. | BS |
| **17.** | **Adolygu'r cyfarfod** | |
| 17.1 | Wrth adolygu'r cyfarfod, fe wnaeth yr aelodau:<br>• nodi datblygiad cadarnhaol y strategaeth pum mlynedd a sut y byddai hon yn awr yn sail i gynllunio busnes; a<br>• myfyrio ynghylch y ffaith nad oeddent wedi cymeradwyo rhai eitemau gan bod angen gwaith pellach ac y dylai'r amseriad ar gyfer eitemau o'r fath roi cyfle i'r Bwrdd gael mewnbwn cyn cyflwyno eitem i'w chymeradwyo.<br>Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithio gyda grŵp cynllunio'r Bwrdd i gynllunio amseriad eitemau i ganiatáu digon o gyfle i awduron dynnu ar ymarferion ymgynghori perthnasol wrth ddrafftio papurau a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a digon o gyfle ar gyfer mewnbwn gan aelodau cyn cyfarfodydd y Bwrdd lle y bo angen. | BS |
| 17.2 | Fe wnaeth y sylwedyddion sylwadau am y canlynol:<br>• yr amrywiaeth eang o destunau a gafodd sylw a'r ystyriaeth ddofn a roddwyd iddynt;<br>• faint o waith a wnaed i gynllunio'r cyfarfod; a hefyd<br>• yr ystod o gyfraniadau gwahanol gan aelodau. | |
| **18.** | **Unrhyw fater arall** | |
| 18.1 | Rhoddodd CGGC ddiweddariad i'r Bwrdd am y tendr ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Eglurodd fel a ganlyn:<br>• roedd ail ymarfer tendro ar y gweill, ond roedd y cyflenwr presennol yn agored i drafodaethau pellach pe bai'r ail ymarfer yn aflwyddiannus;<br>• roedd nifer o ddatganiadau o ddiddordeb wedi dod i law ac roedd y Swyddog Caffael yn ymgysylltu'n frwd â chyflenwyr posibl i'w hannog i gyflwyno tendr; ac<br>• roedd yn disgwyl cyflwyno argymhelliad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gyda golwg ar benodi rhywun tuag at ddiwedd mis | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Mawrth 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | Mawrth neu'n gynnar ym mis Ebrill, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl datblygu cynllun archwilio mewnol drafft. | |
| **19.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 19.1 | Datblygu'r Bwrdd - 16 ac 17 Mai; Busnes y Bwrdd - 09 Mehefin 2022 | |